OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2011 Rhif 632 (Cy.92)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2011

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer taliadau am wasanaethau a threuliau swyddogion canlyniadau mewn cysylltiad â chynnal etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sydd i'w cynnal ar y cyd â'r Refferendwm Pleidlais Amgen ar gyfer etholiadau seneddol ar yr un dyddiad yn 2011. Mae'r symiau a ddynodir yn y Gorchymyn hwn fel y cyfansymiau cyffredinol mwyaf am wasanaethau a threuliau swyddogion canlyniadau wedi cymryd i ystyriaeth y darpariaethau a gynhwysir yn Neddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 sydd yn ei gwneud yn ofynnol bod y costau hyn yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng y Refferendwm Pleidlais Amgen ac etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2006 (O.S. 2006/3268). Gwneir y Gorchymyn hwn o dan erthygl 23 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (O.S. 2007/236). Mae erthygl 23 yn darparu bod hawl gan swyddog canlyniadau etholaeth neu swyddog canlyniadau rhanbarthol i adennill taliadau mewn perthynas â gwasanaethau a ddarparwyd neu dreuliau a dynnwyd mewn cysylltiad ag etholiad Cynulliad.

Mae erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn pennu mai'r cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy ar gyfer pob etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen yw'r hyn a ddangosir yng ngholofn 4 o'r tabl yn Atodlen 1.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2011 No. 632 (W.92)

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## The National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2011

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order provides for payments for services and expenses of returning officers in connection with the conduct of National Assembly for Wales elections which are to be held together with the Alternative Vote Referendum for parliamentary elections on the same date in 2011. The amounts indicated in this Order as being the maximum recoverable amounts for services and expenses of returning officers have taken into consideration the provisions contained within the Parliamentary Voting System and Constituencies Act 2011 which requires that these costs be apportioned equally between the Alternative Vote Referendum and the National Assembly for Wales elections..

This Order revokes The National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2006 (S.I. 2006/3268). This Order is made under article 23 of the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2007 (S.I. 2007/236). Article 23 provides that a constituency or a regional returning officer is entitled to recover charges in respect of services rendered or expenses incurred in connection with an Assembly election.

Article 4 of this Order specifies the overall maximum recoverable amount for each contested Assembly constituency election held on the same day as the Alternative Vote Referendum as shown in column 4 of the table in Schedule 1.

Mae erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn yn pennu na chaiff cyfanswm y taliadau y caiff swyddog canlyniadau eu hadennill mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen, mewn perthynas â gwasanaethau o'r disgrifiad a bennir yn erthygl 5, fod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob etholaeth Cynulliad yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 1.

Article 5 of this Order specifies that the total of the charges recoverable by a returning officer at a contested Assembly constituency election held on the same day as the Alternative Vote Referendum, in respect of services of the description specified in article 5 must not exceed the amount listed for each Assembly constituency in column 2 of the table in Schedule 1.

Mae erthygl 6 o'r Gorchymyn hwn yn gosod cyfanswm y taliadau y caiff swyddog canlyniadau eu hadennill mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen. Ni chaiff treuliau o'r disgrifiad a bennir yn erthygl 6 fod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob etholaeth Cynulliad yng ngholofn 3 o'r tabl yn Atodlen 1.

Article 6 sets out the total of the charges recoverable by a returning officer at a contested Assembly constituency election held on the same day as the Alternative Vote Referendum. The expenses of the description specified in article 6 must not exceed the amount listed for each Assembly constituency in column 3 of the table in Schedule 1.

Mae erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn pennu mai'r cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy ar gyfer etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen yw'r hyn a ddangosir yng ngholofn 4 o'r tabl yn Atodlen 2.

Article 7 of this Order specifies the overall maximum recoverable amount for a contested Assembly regional election held on the same day as the Alternative Vote Referendum as shown in column 4 of the table in Schedule 2.

Mae erthygl 8 o'r Gorchymyn hwn yn pennu cyfanswm y taliadau y caiff swyddog canlyniadau eu hadennill mewn perthynas â gwasanaethau mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen. Pennir y gwasanaethau yn erthygl 8, ac ni chaiff y taliadau fod yn fwy na'r swm a restrir yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 2.

Article 8 of this Order specifies the total of the charges recoverable by a returning officer in respect of services at a contested regional Assembly election held on the same day as the Alternative Vote Referendum. The services are specified in article 8 and the charges must not exceed the amount listed in column 2 of the table in Schedule 2.

Mae erthygl 9 o'r Gorchymyn hwn yn gosod cyfanswm y taliadau y caiff swyddog canlyniadau eu hadennill mewn perthynas â threuliau mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen. Pennir y treuliau yn erthygl 9, ac ni chânt fod yn fwy na'r swm a restrir yng ngholofn 3 o'r tabl yn Atodlen 2.

Article 9 sets out the total of the charges recoverable by a returning officer in respect of expenses at a contested regional Assembly election held on the same day as the Alternative Vote Referendum. The expenses are specified in article 9 and must not exceed the amount listed in column 3 of the table in Schedule 2.

Yn achos etholiad nas ymleddir mewn etholaeth Cynulliad, mae erthygl 10 yn darparu mai'r cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy yw £1,750 am bob etholaeth Cynulliad.

In the case of an uncontested Assembly constituency election article 10 provides the overall maximum recoverable amount is £1,750 for each Assembly constituency.

Yn achos etholiad nas ymleddir mewn rhanbarth y Cynulliad, mae erthygl 11 yn darparu mai'r cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy yw £350 am bob rhanbarth y Cynulliad.

In the case of an uncontested Assembly regional election article 11 provides the overall maximum recoverable amount is £350 for each Assembly region.

Mae'r tabl a gynhwysir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn disgrifio'r cyfanswm cyffredinol mwyaf a'r cyfansymiau mwyaf am wasanaethau ac am dreuliau, y caiff swyddog canlyniadau etholaeth eu hadennill ar gyfer neu mewn cysylltiad ag etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen.

The table contained at Schedule 1 to this Order describes the overall maximum and the maximum recoverable amount for services and expenses by a constituency returning officer for, or in connection with, a contested election to the National Assembly for Wales held on the same day as the Alternative Vote Referendum.

Mae'r tabl a gynhwysir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn disgrifio'r cyfanswm cyffredinol mwyaf a'r cyfansymiau mwyaf am wasanaethau ac am dreuliau, y caiff swyddog canlyniadau rhanbarthol eu hadennill ar gyfer neu mewn cysylltiad ag etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen.

The table contained at Schedule 2 to this Order describes the overall maximum and the maximum recoverable amount for services and expenses by a regional returning officer for, or in connection with, a contested election to the National Assembly for Wales held on the same day as the Alternative Vote Referendum.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 632 (Cy.92)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *2 Mawrth 2011* |
| *Yn dod i rym* | *25 Mawrth 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 23 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007(**1**) ac a freinir bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol–

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**.–(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2011.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Mawrth 2011.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2**. Yn y Gorchymyn hwn–

(a) mae'r term "etholaeth Cynulliad" ("*Assembly constituency*") i'w ddehongli yn unol ag adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

(b) mae'r term "rhanbarth etholiadol Cynulliad" ("*Assembly electoral region*") i'w ddehongli yn unol ag adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**1**) O.S. 2007/236.

(**2**) Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 632 (W.92)

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## The National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2011

| | |
|---|---|
| *Made* | *2 March 2011* |
| *Coming into force* | *25 March 2011* |

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by article 23 of the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2007(**1**) and now vested in them(**2**), make the following Order–

**Title, application and commencement**

**1**.–(1) The title of this Order is the National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2011.

(2) This Order comes into force on 25 March 2011.

(3) This Order applies in relation to Wales.

**Interpretation**

**2**. In this Order–

(a) "Assembly constituency" ("*etholaeth Cynulliad*") is to be construed in accordance with section 2 of the Government of Wales Act 2006;

(b) "Assembly electoral region" ("*rhanbarth etholiadol Cynulliad*") is to be construed in accordance with section 2 of the Government of Wales Act 2006.

(**1**) S.I. 2007/236.

(**2**) By virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32) the powers of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers.

**Dirymu**

**3**. Dirymir Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2006(**1**).

**Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy**

**4**. Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy ar gyfer etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen yw'r swm a restrir yng ngholofn 4 o'r tabl yn Atodlen 1.

**Y cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy am wasanaethau mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen**

**5**.–(1) Rhaid i gyfanswm y taliadau y caiff swyddog canlyniadau eu hadennill mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen, mewn perthynas â'r gwasanaethau o'r disgrifiad a bennir ym mharagraff (2), beidio â bod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob etholaeth Cynulliad yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 1.

(2) Y gwasanaethau yw–

(a) gwneud trefniadau ar gyfer yr etholiad;

(b) cynnal yr etholiad;

(c) cyflawni holl ddyletswyddau swyddog canlyniadau mewn perthynas â'r etholiad.

**Y cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy am dreuliau mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen**

**6**.–(1) Rhaid i gyfanswm y taliadau y caiff swyddog canlyniadau eu hadennill mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen, mewn perthynas â'r treuliau o'r disgrifiad a bennir ym mharagraff (2), beidio â bod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob etholaeth Cynulliad yng ngholofn 3 o'r tabl yn Atodlen 1.

(2) Y treuliau yw–

(a) penodi a thalu ffioedd i bersonau sy'n cynorthwyo'r swyddog canlyniadau;

(b) ad-dalu treuliau teithio a chynhaliaeth a dynnir gan unrhyw berson a benodir i gynorthwyo'r swyddog canlyniadau a chan y swyddog canlyniadau;

(c) argraffu neu gynhyrchu papurau pleidleisio;

(ch) argraffu a dosbarthu papurau pleidleisio drwy'r post;

(d) argraffu a dosbarthu cardiau pleidleisio;

(**1**) O.S. 2006/3268 (Cy.298).

**Revocation**

**3**. The National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2006(**1**) is revoked.

**Overall maximum recoverable amount**

**4**. The overall maximum recoverable amount for a contested Assembly constituency election held on the same day as the Alternative Vote Referendum is the amount listed in column 4 of the table in Schedule 1.

**Maximum recoverable amount for services at a contested Assembly constituency election held on the same day as the Alternative Vote Referendum**

**5**.–(1) The total of the charges recoverable by a returning officer at a contested Assembly constituency election held on the same day as the Alternative Vote Referendum in respect of the services of the description specified in paragraph (2) must not exceed the amount listed for each Assembly constituency in column 2 of the table in Schedule 1.

(2) The services are–

(a) making arrangements for the election;

(b) conducting the election;

(c) discharging all of a returning officer's duties in respect of the election.

**Maximum recoverable amount for expenses at a contested Assembly constituency election held on the same day as the Alternative Vote Referendum**

**6**.–(1) The total of the charges recoverable by a returning officer at a contested Assembly constituency election held on the same day as the Alternative Vote Referendum in respect of the expenses of the description specified in paragraph (2) must not exceed the amount listed for each Assembly constituency in column 3 of the table in Schedule 1.

(2) The expenses are–

(a) appointment and payment of fees to persons who assist the returning officer;

(b) reimbursement of travel and subsistence expenses incurred by any person appointed to assist the returning officer and the returning officer;

(c) printing or production of ballot papers;

(d) printing and delivery of postal voting documents;

(e) printing and delivery of poll cards;

(**1**) S.I. 2006/3268 (W.298).

(dd) argraffu a chyhoeddi'r holl hysbysiadau a dogfennau etholiad;

(e) rhentu ac addasu mangreoedd i'w defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio neu ganolfannau cyfrif, gan gynnwys gwresogi, goleuo, glanhau, ac adfer yr adeilad neu'r ystafell i'r cyflwr gwreiddiol;

(f) darparu a chludo'r holl gyfarpar angenrheidiol ar gyfer cynnal yr etholiad a'r cyfrif;

(ff) darparu'r holl gyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a meddalwedd, a chostau cysylltiedig;

(g) darparu diogelwch a storio dogfennau etholiadol yn ddiogel yn ystod cyfnod yr etholiad;

(ng) cynnal y gwirio a'r cyfrif;

(h) darparu a chael hyfforddiant;

(i) costau eitemau amrywiol, na roddir cyfrif amdanynt mewn man arall, megis deunyddiau ysgrifennu, postio, ffonio, argraffu a chyfieithu.

**Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy**

**7**. Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy ar gyfer etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen yw'r swm a restrir yng ngholofn 4 o'r tabl yn Atodlen 2.

**Y cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy am wasanaethau mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen**

**8**.–(1) Rhaid i gyfanswm y taliadau y caiff swyddog canlyniadau rhanbarthol eu hadennill mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen, mewn perthynas â'r gwasanaethau o'r disgrifiad a bennir ym mharagraff (2), beidio â bod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob rhanbarth etholiadol Cynulliad yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 2.

(2) Y gwasanaethau yw–

(a) gwneud trefniadau ar gyfer yr etholiad;

(b) cynnal yr etholiad;

(c) cyflawni holl ddyletswyddau swyddog canlyniadau rhanbarthol mewn perthynas â'r etholiad.

(f) printing and publishing of all election notices and documents;

(g) renting and adaptation of premises for use as polling stations or count centres, including heating, lighting, cleaning and restoring building or room to original condition;

(h) providing and transporting all equipment necessary for the conduct of the election and count;

(i) providing all information and communications technology equipment and software and associated costs;

(j) providing security and secure storage of electoral documents during the period of the election;

(k) conducting the verification and the count;

(l) providing and receiving training;

(m) the costs of miscellaneous items not accounted for elsewhere such as stationery, postage, telephone, printing and translation.

**Overall maximum recoverable amount**

**7**. The overall maximum recoverable amount for a contested Assembly regional election held on the same day as the Alternative Vote Referendum is the amount listed in column 4 of the table in Schedule 2.

**Maximum recoverable amount for services at a contested Assembly regional election held on the same day as the Alternative Vote Referendum**

**8**.–(1) The total of the charges recoverable by a regional returning officer at a contested Assembly regional election held on the same day as the Alternative Vote Referendum in respect of the services of the description specified in paragraph (2) must not exceed the amount listed for each Assembly electoral region in column 2 of the table in Schedule 2.

(2) The services are–

(a) making arrangements for the election;

(b) conducting the election;

(c) discharging all of the regional returning officer duties in respect of the election.

**Y cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy am dreuliau mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen**

**9**.–(1) Rhaid i gyfanswm y taliadau y caiff swyddog canlyniadau rhanbarthol eu hadennill mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen, mewn perthynas â'r treuliau o'r disgrifiad a bennir ym mharagraff (2), beidio â bod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob rhanbarth etholiadol Cynulliad yng ngholofn 3 o'r tabl yn Atodlen 2.

(2) Y treuliau yw–

- (a) penodi a thalu ffioedd i bersonau sy'n cynorthwyo'r swyddog canlyniadau rhanbarthol;
- (b) ad-dalu treuliau teithio a chynhaliaeth a dynnir gan unrhyw berson a benodir i gynorthwyo'r swyddog canlyniadau rhanbarthol a chan y swyddog canlyniadau rhanbarthol;
- (c) argraffu a chyhoeddi hysbysiadau;
- (ch) paratoi'r papur pleidleisio;
- (d) costau eitemau amrywiol, na roddir cyfrif amdanynt mewn man arall, megis deunyddiau ysgrifennu, postio, ffonio, argraffu a chyfieithu.

**Maximum recoverable amount for expenses at a contested Assembly regional election held on the same day as the Alternative Vote Referendum**

**9**.–(1) The total of the charges recoverable by a regional returning officer at a contested Assembly regional election held on the same day as the Alternative Vote Referendum in respect of the expenses of the description specified in paragraph (2) must not exceed the amount listed for each Assembly electoral region in column 3 of the table in Schedule 2.

(2) The expenses are–

- (a) appointment and payment of fees to persons who assist the regional returning officer;
- (b) reimbursement of travel and subsistence expenses incurred by any person appointed to assist the regional returning officer and the regional returning officer;
- (c) printing and publishing of notices;
- (d) preparing the ballot paper;
- (e) the costs of miscellaneous items not accounted for elsewhere such as stationery, postage, telephone, printing and translation.

**Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy mewn etholiad etholaeth Cynulliad nas ymleddir**

**10**. Mewn etholiad etholaeth Cynulliad nas ymleddir–

- (a) nid yw erthyglau 4 i 6 yn gymwys; a
- (b) y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy am wasanaethau a threuliau yw £1,750 (un fil a saith gant a hanner o bunnoedd) am bob etholaeth.

**Overall maximum recoverable amount at an uncontested Assembly constituency election**

**10**. At an uncontested Assembly constituency election–

- (a) articles 4 to 6 do not apply; and
- (b) the overall maximum recoverable amount for services and expenses for each constituency is £1,750 (one thousand seven hundred and fifty pounds).

**Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad nas ymleddir**

**11**. Mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad nas ymleddir–

- (a) nid yw erthyglau 7 i 9 yn gymwys; a
- (b) y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy am wasanaethau a threuliau yw £350 (tri chant a hanner o bunnoedd) am bob rhanbarth.

**Overall maximum recoverable amount at an uncontested Assembly regional election**

**11**. At an uncontested Assembly regional election–

- (a) articles 7 to 9 do not apply; and
- (b) the overall maximum recoverable amount for services and expenses for each region is £350 (three hundred and fifty pounds).

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

2 Mawrth 2011

Minister for Social Justice and Local Government, one of the Welsh Ministers

2 March 2011

## ATODLEN 1

Erthyglau 4, 5(1) a 6(1)

### Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy a'r cyfansymiau mwyaf am wasanaethau ac am dreuliau sy'n adenilladwy mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen

| **1.** **Etholaeth** | **2.** **Cyfanswm adenilladwy mwyaf am wasanaethau** | **3.** **Cyfanswm adenilladwy mwyaf am dreuliau** | **4.** **Cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy** |
|---|---|---|---|
| Aberafan | **£4,730** | **£111,450** | **£116,180** |
| Aberconwy | **£4,730** | **£80,770** | **£85,500** |
| Alun a Glannau Dyfrdwy | **£4,730** | **£100,882** | **£105,612** |
| Arfon | **£4,730** | **£78,161** | **£82,891** |
| Blaenau Gwent | **£4,730** | **£117,304** | **£122,034** |
| Bro Morgannwg | **£4,730** | **£141,432** | **£146,162** |
| Brycheiniog a Sir Faesyfed | **£4,730** | **£123,355** | **£128,085** |
| Caerffili | **£4,730** | **£120,434** | **£125,164** |
| Canol Caerdydd | **£4,730** | **£105,346** | **£110,076** |
| Castell-nedd | **£4,730** | **£127,310** | **£132,040** |
| Ceredigion | **£4,730** | **£111,403** | **£116,133** |
| Cwm Cynon | **£4,730** | **£96,461** | **£101,191** |
| De Caerdydd a Phenarth | **£4,730** | **£142,449** | **£147,179** |
| De Clwyd | **£4,730** | **£107,326** | **£112,056** |
| Delyn | **£4,730** | **£99,322** | **£104,052** |
| Dwyfor Meirionnydd | **£4,730** | **£103,062** | **£107,792** |
| Dwyrain Abertawe | **£4,730** | **£109,283** | **£114,013** |
| Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr | **£4,730** | **£127,031** | **£131,761** |
| Dwyrain Casnewydd | **£4,730** | **£97,526** | **£102,256** |
| Dyffryn Clwyd | **£4,730** | **£96,950** | **£101,680** |
| Gogledd Caerdydd | **£4,730** | **£130,778** | **£135,508** |
| Gorllewin Abertawe | **£4,730** | **£106,528** | **£111,258** |
| Gorllewin Caerdydd | **£4,730** | **£120,979** | **£125,709** |
| Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro | **£4,730** | **£119,374** | **£124,104** |
| Gorllewin Casnewydd | **£4,730** | **£114,489** | **£119,219** |
| Gorllewin Clwyd | **£4,730** | **£106,530** | **£111,260** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gŵyr | **£4,730** | **£115,670** | **£120,400** |
| Islwyn | **£4,730** | **£104,722** | **£109,452** |
| Llanelli | **£4,730** | **£121,633** | **£126,363** |
| Merthyr Tudful a Rhymni | **£4,730** | **£110,152** | **£114,882** |
| Mynwy | **£4,730** | **£133,869** | **£138,599** |
| Ogwr | **£4,730** | **£100,682** | **£105,412** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | **£4,730** | **£107,565** | **£112,295** |
| Pontypridd | **£4,730** | **£113,447** | **£118,177** |
| Preseli Sir Benfro | **£4,730** | **£118,180** | **£122,910** |
| Rhondda | **£4,730** | **£106,265** | **£110,995** |
| Sir Drefaldwyn | **£4,730** | **£95,718** | **£100,448** |
| Tor-faen | **£4,730** | **£125,634** | **£130,364** |
| Wrecsam | **£4,730** | **£88,047** | **£92,777** |
| Ynys Môn | **£4,730** | **£101,833** | **£106,563** |
| | | | |
| Cyfanswm | **£189,200** | **£4,439,349** | **£4,628,549** |

## SCHEDULE 1

Articles 4, 5(1) and 6(1)

Overall maximum recoverable amount and maximum recoverable amounts for services and expenses at a contested Assembly constituency election held on the same day as the Alternative Vote Referendum

| 1.<br>Constituency | 2.<br>Maximum recoverable amount for services | 3.<br>Maximum recoverable amount for expenses | 4.<br>Overall maximum recoverable amount |
|---|---|---|---|
| Aberavon | **£4,730** | **£111,450** | **£116,180** |
| Aberconwy | **£4,730** | **£80,770** | **£85,500** |
| Alyn and Deeside | **£4,730** | **£100,882** | **£105,612** |
| Arfon | **£4,730** | **£78,161** | **£82,891** |
| Blaenau Gwent | **£4,730** | **£117,304** | **£122,034** |
| Brecon and Radnorshire | **£4,730** | **£123,355** | **£128,085** |
| Bridgend | **£4,730** | **£107,565** | **£112,295** |
| Caerphilly | **£4,730** | **£120,434** | **£125,164** |
| Cardiff Central | **£4,730** | **£105,346** | **£110,076** |
| Cardiff North | **£4,730** | **£130,778** | **£135,508** |
| Cardiff South and Penarth | **£4,730** | **£142,449** | **£147,179** |
| Cardiff West | **£4,730** | **£120,979** | **£125,709** |
| Carmarthen East and Dinefwr | **£4,730** | **£127,031** | **£131,761** |
| Carmarthen West and South Pembrokeshire | **£4,730** | **£119,374** | **£124,104** |
| Ceredigion | **£4,730** | **£111,403** | **£116,133** |
| Clwyd South | **£4,730** | **£107,326** | **£112,056** |
| Clwyd West | **£4,730** | **£106,530** | **£111,260** |
| Cynon Valley | **£4,730** | **£96,461** | **£101,191** |
| Delyn | **£4,730** | **£99,322** | **£104,052** |
| Dwyfor Meirionnydd | **£4,730** | **£103,062** | **£107,792** |
| Gower | **£4,730** | **£115,670** | **£120,400** |
| Islwyn | **£4,730** | **£104,722** | **£109,452** |
| Llanelli | **£4,730** | **£121,633** | **£126,363** |
| Merthyr Tydfil and Rhymney | **£4,730** | **£110,152** | **£114,882** |
| Monmouth | **£4,730** | **£133,869** | **£138,599** |
| Montgomeryshire | **£4,730** | **£95,718** | **£100,448** |
| Neath | **£4,730** | **£127,310** | **£132,040** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Newport East | **£4,730** | **£97,526** | **£102,256** |
| Newport West | **£4,730** | **£114,489** | **£119,219** |
| Ogmore | **£4,730** | **£100,682** | **£105,412** |
| Pontypridd | **£4,730** | **£113,447** | **£118,177** |
| Preseli Pembrokeshire | **£4,730** | **£118,180** | **£122,910** |
| Rhondda | **£4,730** | **£106,265** | **£110,995** |
| Swansea East | **£4,730** | **£109,283** | **£114,013** |
| Swansea West | **£4,730** | **£106,528** | **£111,258** |
| Torfaen | **£4,730** | **£125,634** | **£130,364** |
| Vale of Clwyd | **£4,730** | **£96,950** | **£101,680** |
| Vale of Glamorgan | **£4,730** | **£141,432** | **£146,162** |
| Wrexham | **£4,730** | **£88,047** | **£92,777** |
| Ynys Mon | **£4,730** | **£101,833** | **£106,563** |
| | | | |
| Total | **£189,200** | **£4,439,349** | **£4,628,549** |

## ATODLEN 2

Erthyglau 7, 8(1) a 9(1)

### Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy a'r cyfansymiau mwyaf am wasanaethau ac am dreuliau sy'n adenilladwy mewn etholiad rhanbarthol y Cynulliad a ymleddir ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen

| **1.**<br><br>**Rhanbarth Etholiadol y Cynulliad** | **2.**<br><br>**Cyfanswm adenilladwy mwyaf am wasanaethau** | **3.**<br><br>**Cyfanswm adenilladwy mwyaf am dreuliau** | **4.**<br><br>**Cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy** |
|---|---|---|---|
| Canol De Cymru | **£2,860.00** | **£14,000.00** | **£16,860.00** |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | **£2,860.00** | **£14,000.00** | **£16,860.00** |
| Dwyrain De Cymru | **£2,860.00** | **£14,000.00** | **£16,860.00** |
| Gogledd Cymru | **£2,860.00** | **£14,000.00** | **£16,860.00** |
| Gorllewin De Cymru | **£2,860.00** | **£14,000.00** | **£16,860.00** |
| | | | |
| Cyfanswm | **£14,300.00** | **£70,000.00** | **£84,300.00** |

© Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

## SCHEDULE 2

Articles 7, 8(1) and 9(1)

Overall maximum recoverable amount and maximum recoverable amounts for services and expenses at a contested Assembly regional election held on the same day as the Alternative Vote Referendum

| 1.<br>**Assembly Electoral Region** | 2.<br>**Maximum recoverable amount for services** | 3.<br>**Maximum recoverable amount for expenses** | 4.<br>**Overall maximum recoverable amount** |
|---|---|---|---|
| North Wales | **£2,860.00** | **£14,000.00** | **£16,860.00** |
| Mid and West Wales | **£2,860.00** | **£14,000.00** | **£16,860.00** |
| South Wales Central | **£2,860.00** | **£14,000.00** | **£16,860.00** |
| South Wales West | **£2,860.00** | **£14,000.00** | **£16,860.00** |
| South Wales East | **£2,860.00** | **£14,000.00** | **£16,860.00** |
| | | | |
| Total | **£14,300.00** | **£70,000.00** | **£84,300.00** |

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 632 (Cy.92)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2011

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 632 (W.92)

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

The National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2011

£5.75

W878/04/11 ON